Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

Masnach Deg ar gyfer Busnesau

Ffeithiau Marchnata

Beth yw Masnach Deg?

Ystyr Masnach Deg yw cytundeb teg hirdymor i gynhyrchwyr sy'n byw yn ardaloedd deheuol y byd, sy'n sicrhau bod gennym nwyddau fel te, coffi, siwgr a bananas. Dan drefn y farchnad draddodiadol lle mae prisiau'n gyfnewidiol a lle gall y dynion yn y canol ymelwa ar y rheini sy'n tyfu'r cynnyrch, ni all rhai cynhyrchwyr fforddio'r pethau elfennol mewn bywyd na chynllunio ar gyfer y dyfodol. Weithiau ni all tyfwyr coffi adennill costau'r cynhyrchu hyd yn oed, felly gallant fod yn talu am i ni yfed ein coffi! Dull masnachol amgen yw Masnach Deg. Gyda chytundeb Masnach Deg, dylai pris nwyddau masnachol fel coffi bob amser fodloni pris cyfartalog y byd, neu ragori arno. Darllenwch fwy am hyn yn 'Beth yw'r manteision i gynhyrchwyr?

Twf yn y Farchnad

Gan y DU y mae'r mudiad Masnach Deg mwyaf deinamig yn y byd. Ceir grwpiau Masnach Deg mewn sawl tref ar draws y DU a mae Cymru newydd ennill ei lle fel Gwlad Masnach Deg gyntaf y byd bydd Cymru'n cael ei chydnabod fel y genedl Masnach Deg gyntaf yn y byd yn 2008. Mae 70% o siopwyr yn adnabod y logo Masnach Deg[1].

Wrth i 'brynwriaeth foesegol' dyfu, mae mwy a mwy o ddefnyddwyr yn disgwyl bod cynnyrch Masnach Deg ar gael mewn caffis, bwytai ac mewn mannau gwaith[2].

Gwelwyd gwerthiant nwyddau Masnach Deg yn y siopau yn 2007 yn cyrraedd £493m (cynnydd o 81 y cant er 2006), yn dilyn cynnydd blynyddol o 40 y cant er 2002. Bananas, ac wedyn coffi, cotwm a the oedd yn gwerthu orau[3].

Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau hyn yn dal i gael eu gwerthu drwy system y farchnad draddodiadol, sy'n golygu bod cynhyrchwyr Masnach Deg eisiau gwerthu mwy o'u cynnyrch ar y telerau hyn.

---

[1] Sefydliad Masnach Deg www.fairtrade.org.uk Datganiad i'r wasg 10/05/2008 (TNS CAPI OmniBus)
[2] Adroddiad am Brynwriaeth Foesegol 2007 gan y Co-operative Bank. At ei gilydd, mae 'farchnad foesegol' werth £32.3 biliwn y flwyddyn – naw y cant o gynnydd er 2006. Fodd bynnag, mae hon yn dal yn gyfran fach o gyfanswm gwariant blynyddol cwsmeriaid, sydd dros £600 biliwn.
[3] Datganiad i'r wasg gan y Sefydliad Masnach Deg 25/02/2008

Allwch chi weld y bwlch yn y farchnad? Os cynigiwch nwyddau Masnach Deg yn eich busnes, rydych yn dangos i'ch cwsmeriaid a'ch staff eich bod nid yn unig yn ymatebol i ddatblygiadau yn y farchnad ond hefyd eich bod yn ymddwyn yn foesegol.

Hefyd, mae eich cwsmeriaid ar gyfer y dyfodol yn fwy tebygol fyth o ddisgwyl opsiynau moesegol – mae 53% o bobl ifanc yn credu ei bod yn werth talu mwy am nwyddau sy'n foesegol gadarn[4].

Yn dda ar gyfer gwerthiant

Gwnaethpwyd llawer o'r gwaith arloesi cynnar o ran ymwybyddiaeth defnyddwyr o Fasnach Deg a'r twf yn y farchnad drwy Traidcraft, y mudiad cydweithredol ac eglwysi. Ceir rhesymau masnachol cadarn dros gynnig cynnyrch Masnach Deg i'ch cwsmeriaid, er enghraifft, newidiodd busnes bwyd y Grŵp Cydweithredol siocled eu brand eu hunain yn siocled Masnach Deg yn 2002 a'r un fath gyda choffi yn 2003. Dros nos cynyddodd gwerth gwerthiant coffi Masnach Deg y DU 15 y cant. Erbyn hyn mae defnyddwyr yn cydnabod y Co-op fel un o werthwyr mwyaf nwyddau Masnach Deg o ran archfarchnadoedd.

Newidiodd busnesau blaenllaw fel Marks & Spencer i werthu dim ond coffi Masnach Deg yn eu caffis ac mae Tate a Lyle yn bwriadu trosi ei holl gynnyrch siwgr i siwgr Masnach Deg o fewn dwy flynedd. A hefyd, prynwr mwyaf y byd o goffi Masnach Deg ydy Starbucks.

Beth mae'r labeli'n ei olygu?

Beth mae'r label Masnach Deg yn ei olygu?

Mae'r label Masnach Deg yn gwarantu bod y cynnyrch wedi'i ardystio fel cynnyrch Masnach Deg. Y Sefydliad Masnach Deg yn y DU sy'n rhoi trwyddedau i ddefnyddio'r label. Caiff cytundebau rhwng adwerthwyr a chynhyrchwyr eu trefnu drwy'r Sefydliad Labelu Masnach Deg, sef corff rhyngwladol sy'n pennu prisiau. Mae'r marc Masnach Deg yn system y gellir ei harchwilio'n drylwyr. Caiff cynhyrchwyr bremiwm cymdeithasol o tua 5% ar y cynhyrchion hyn. Darllenwch fwy am hyn yn 'Beth yw'r manteision i gynhyrchwyr?'

Beth yw ystyr wedi'i Fasnachu'n Deg?

Mae 'wedi'i fasnachu'n deg' yn cyfeirio at gynnyrch lle nad oes system labelu swyddogol yn bodoli eto, megis rwber, neu lle nad ffermwyr sy'n gwneud y cynnyrch, megis cynhyrchu dillad neu grefftau a wneir â llaw. Mae cytundeb teg a thryloyw yn dal yn nodweddion o Fasnach Deg. I wneud yn siŵr eich bod yn cael cynnyrch sydd wedi'i fasnachu'n deg, fe'ch cynghorir i ddefnyddio cyflenwr neu fasnachwr sydd

[4] Arolwg 2006 TechTribe o bobl ifanc 16-25 oed gan yr asiantaeth farchnata ar gyfer leuenctid Face

wedi'i gofrestru gyda Chymdeithas Siopau Masnach Deg Prydain (BAFTS). Gall aelodau BAFTS ddefnyddio'r logo. Gallwch ddod o hyd iddynt a gweld y meini prawf yn www.bafts.org.uk

Gyda'r ddau, rhaid i'r sefydliadau cynhyrchu fodloni rhestr o feini prawf moesegol sy'n atal unrhyw ymelwa, megis defnyddio llafur plant a bodloni safonau llafur rhyngwladol, yn ogystal â phennu pris teg a chytundeb hirdymor sy'n dryloyw. Bydd partneriaid ymroddgar yn buddsoddi mewn hyfforddi a datblygu sefydliadau sy'n gwneud cynnyrch Masnach Deg er mwyn ei helpu i feithrin ei gapasiti.

Mae IFAT yn sefydliad sy'n cynrychioli cynhyrchwyr.

Beth yw Masnachu Moesegol?

Masnachu moesegol yw'r term a ddefnyddiwn i sôn am amodau gweithio pobl, nad ydynt o reidrwydd yn ffermwyr, megis pobl sy'n gweithio mewn ffatrïoedd.

Mae'r Cynllun Masnachu Moesegol yn gynghrair o gwmnïau, Cyrff Anllywodraethol ac undebau masnach. Maent yn gweithio i hyrwyddo a gwella codau ymarfer corfforaethol sy'n cynnwys amodau gweithio yn y gadwyn gyflenwi er mwyn bodloni safonau llafur rhyngwladol. Mae aelodau'n ymrwymo i god sylfaen – yn sgil argymhellion gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol.

Sut gallaf ddefnyddio Masnach Deg yn fy sefydliad?

Pa gynnyrch Masnach Deg y gallaf eu defnyddio yn fy sefydliad?

Ceir dros 3,000 o gynnyrch ardystiedig ym Mhrydain erbyn hyn gan gynnwys peli pêl-droed, coffi, mêl, siwgr, cotwm, peli rygbi, orennau, sinsir, siocled, reis, te a bananas, ac offerynnau cerddorol a sgidiau rhedeg wedi'u masnachu'n deg.

Masnach Deg yn y gwaith

Datgelodd arolwg diweddar gan YouGov er gwaetha'r gefnogaeth gynyddol i Fasnach Deg yn y DU, mai dim ond 17% o weithwyr y DU sy'n dweud bod eu cwmnïau ar hyn o bryd yn defnyddio cynnyrch Masnach Deg yn y gwaith. Dywed bron i ddau o bob pum gweithiwr (38%) y dylai eu cwmni ddarparu cynnyrch gyda'r nod masnach deg (FAIRTRADE) arnynt ar eu cyfer yn y gwaith.

Mae'r cynnyrch yn cynnwys te, coffi a sudd ffrwythau, bisgedi a theisennau ar gyfer cyfarfodydd a gwin ar gyfer swpera gyda chleientiaid. Gallwch hefyd gael gafael ar gotwm Masnach Deg ar gyfer lifrai a chrysau-T eich cwmni a bywiogi'ch derbynfa gyda blodau Masnach Deg! I weld rhestr hwy, darllenwch 'Cynnyrch Masnach Deg ar gyfer eich busnes'.

Bydd gweithwyr ac ymwelwyr yn falch iawn o weld cynhyrchion Masnach Deg yn cael eu cynnig. Mae darparu'r rhain yn dangos gofal dros weithwyr gydol y broses gynhyrchu a bydd eich busnes yn cael ei weld fel un sy'n gymdeithasol gyfrifol. I gael gwybod rhagor, ewch i ymgyrch y Sefydliad Masnach Deg yn www.fairtradeatwork.org.uk

Polisi Masnach Deg

Os ydych chi'n wirioneddol eisiau dangos ymrwymiad eich sefydliad i Fasnach Deg – pam na fabwysiadwch chi bolisi Masnach Deg? Rydym wedi datblygu polisi i'ch helpu i ddangos eich bod yn cyflwyno Masnach Deg yn eich busnes. Drwy ei gwblhau, gallwch gael eich gweld ar fap ar-lein o Fasnach Deg yng Nghymru – gellir cael copi yn www.walescoop.com.

Masnach Deg mewn mannau arlwyo

Mae'n hawdd sicrhau bod Masnach Deg ar gael i'ch cwsmeriaid a chred 65 y cant o boblogaeth y DU y dylai cynnyrch Masnach Deg fod ar gael mewn caffis a bwytai yn ogystal â siopau[5]. Mae cannoedd o wahanol fathau o de a choffi Masnach Deg i ddewis ohonynt yn ogystal â siocled poeth, siwgr, siocled, barrau byrbryd a bananas, i gyd am brisiau cystadleuol.

Gofynnwch i'ch cyflenwr am fwydydd Masnach Deg. Efallai y gallwch gael gafael arnynt drwyddynt hwy. Mae rhestr o gyflenwyr Masnach Deg sy'n gallu darparu ar gyfer y farchnad y tu allan i'r cartref ar gael gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, y Sefydliad Masnach Deg www.fairtrade.org.uk neu gan Gymdeithas Siopau Masnach Deg Prydain yn www.bafts.org.uk.

Beth os nad yw eich cyflenwr presennol yn cynnig Masnach Deg ond dydych chi ddim am ddifetha'r berthynas sydd gennych? Cynigiwch Fasnach Deg ochr yn ochr â'ch math neu'ch brand presennol fel arbrawf. Os penderfynwch ei gynnig yn barhaol, gallech ofyn i'ch cyflenwr ddechrau cadw nwyddau Masnach Deg: efallai bod rhywun wedi gofyn o'ch blaen ac mae bodloni anghenion y farchnad o fudd iddynt hwythau.

Sut y gallwn hyrwyddo ein bod yn newid i gynnyrch Masnach Deg?

Gall caffis a bwytai archebu Pecyn *Man Gwerthu* Masnach Deg sy'n cynnwys cardiau pebyll, matiau diod papur, sticeri ar gyfer ffenestri a phosteri yn www.fairtrade.org.uk .

Gellir defnyddio'r logo Masnach Deg i hyrwyddo os dilynwch ganllawiau'r Sefydliad Masnach Deg.
Mae'n rhaid i chi gael trwydded gan y Sefydliad Masnach Deg i ddefnyddio'r logo Masnach Deg ar eich cynnyrch.

---

[5] Datganiad i'r wasg gan y Sefydliad Masnach Deg: 26/02/2008 Ffynhonnell OC&C 2007

Lawrlwythwch ein templed o ddatganiad i'r wasg i'ch helpu i hyrwyddo eich bod yn newid i gynnyrch Masnach Deg, ac ychwanegwch eich sefydliad at y map ar-lein.

Sut mae cyfuno 'Masnach Deg a lleol'?

Gall Masnach Deg a chynnyrch lleol fynd law yn llaw. Mae'r ddau gysyniad yn naturiol yn apelio i ddefnyddwyr moesegol (ynghyd â'r amgylchedd a lles anifeiliaid). Gallai caffis a bwytai gynnig bwydlenni sy'n cynnig y ddau. Mae'r rhan fwyaf o nwyddau Masnach Deg, megis coffi neu fananas, yn cael eu tyfu y tu allan i'r DU ac Ewrop.

Beth am ffermwyr y DU?

Anelir y term Masnach Deg at ffermwyr bach yn ardaloedd deheuol y byd sydd ar reng flaen anghydraddoldebau masnachu'r byd ac nad oes ganddynt yr un sicrwydd cymdeithasol â ffermwyr yn y Gorllewin. Gallai ffermwyr yma gysylltu â'u hundebau i gael cefnogaeth. Gall mudiadau cydweithredol fod yn rhan o'r gwaith hwn hefyd, megis ein cleient Calon Wen, mudiad cydweithredol arloesol ym maes llaeth organig.

A fydd cynnyrch Masnach Deg yn costio mwy?

Ar gyfartaledd, mae pris manwerthu coffi Masnach Deg lai nag 1c y gwpan yn fwy na choffi heb fod yn Fasnach Deg. Weithiau, nid oes gwahaniaeth yn y gost. Gallech gysylltu â'r cyflenwyr a awgrymir i gael pris.

Mae defnyddwyr Masnach Deg yn cydnabod y gwerth i'r cynhyrchwyr ac yn gyffredinol maent yn barod i dalu am y gwerth ychwanegol, fel y dangosir gan y twf yn y farchnad. Dywed adroddiad diweddar gan Sefydliad Dosbarthu Nwyddau Groser fod siopwyr y DU yn awr yn gwario £13 biliwn y flwyddyn ar fwyd a nwyddau groser o'r radd flaenaf – yn cynnwys cynnyrch organig, Masnach Deg a lleol. Mae'r farchnad hon yn cynrychioli 10 y cant o'r farchnad bwyd a nwyddau groser ac mae'r adroddiad yn rhagweld y bydd gwerth y farchnad hon yn codi i £19.2 biliwn erbyn 2011[6]

Profi'r farchnad

Gofynnwch i'r defnyddwyr beth y maent am ei gael, beth am sefydlu system bleidleisio syml? Prynwch ychydig o samplau a'u cynnig fel dewis amgen am gyfnod prawf.

Masnach Deg yng Nghymru

Daeth Cymru yn genedl Fasnach Deg gyntaf y byd yn 2008. Fforwm Masnach Deg Cymru oedd yn gyfrifol am yr ymgyrch — mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn aelod o'r fforwm hwnnw — ac mae

[6] Datganiad i'r wasg gan y Sefydliad Masnach Deg 26/02/2007

Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi'r ymgyrch. Mae'n gofyn am gefnogaeth siopwyr, ymgyrchwyr, grwpiau mewn trefi, prifysgolion, sefydliadau a busnesau. Mae gwledydd eraill hefyd yn dilyn yr arweiniad hwn.

Beth yw tref Fasnach Deg?

Rhedir ymgyrchoedd lleol gan grwpiau o wirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn Masnach Deg. Pan fydd y dref wedi bodloni'r meini prawf, bydd y Sefydliad Masnach Deg yn dyfarnu'r statws Tref Fasnach Deg iddynt. Er mwyn helpu eich tref i gael statws Masnach Deg, gallech gynnig cynnyrch Masnach Deg yn y gwaith neu yn eich siop neu'ch caffi. Ymwelwch â'r fforwm yn www.masnachdegcymru.com neu yn www.fairtradewales.com neu i gael rhagor o fanylion am beth y mae dod yn dref Masnach Deg yn ei olygu, ewch i www.fairtradefoundation.org.uk

Beth yw manteision Masnach Deg i gynhyrchwyr?

- Mae'r isafswm a sicrheir yn golygu bod tyfwyr yn gallu fforddio gwella'u cyfleoedd bywyd megis anfon eu plant i'r ysgol.
- Mae'r cynhyrchwyr hefyd yn cael 'premiwm cymdeithasol' o elw Masnach Deg. Maent yn penderfynu ar y cyd sut i wario'r arian hwn i wella'u cymuned, gan adeiladu ffynhonnau mewn sawl achos i wella'r cyflenwad dŵr.
- Mae'r broses ddemocrataidd o wneud penderfyniadau'n rhoi llais i ferched. Mae rhai sefydliadau'n darparu rhaglenni datblygu ar gyfer merched, megis Kuapa Kokoo yn Ghana.
- Gyda llai o bwysau i gynhyrchu cymaint o gynnyrch â phosibl sy'n golygu defnyddio plaleiddiaid, a mwy o arian ar gael i ailfuddsoddi, yn aml mae cynnyrch Masnach Deg yn well i'r amgylchedd ac i ddefnyddwyr. Lle na ddefnyddir plaleiddiad mwyach a lle mae ffermio organig yn cael ei ddatblygu, er enghraifft wrth gynhyrchu cotwm neu de, mae'r cynhyrchwyr yn aml yn cael llai o salwch.
- Ar gyfer mudiadau cydweithredol, mae defnyddio cynnyrch Masnach Deg yn dod â'r 6ed egwyddor yn fyw - 'Cydweithredu ymysg mudiadau cydweithredol'. Mae llawer o gynhyrchwyr yn gweithio mewn mudiadau cydweithredol, megis cynhyrchwyr gwin De Affrica, felly mae'n naturiol eu cefnogi.
- Os hoffech gael gwybod mwy am y manteision i gynhyrchwyr edrychwch yn http://www.fairtrade.org.uk/about_benefits.htm.

Beth yw'r manteision i fy musnes neu fy sefydliad

- Efallai y bydd eich sefydliad yn elwa o fwy o werthiant, a bydd Masnach Deg yn rhoi mantais i chi dros eich cystadleuwyr drwy fod ar yr un donfedd â chwsmeriaid o ran eu disgwyliadau.

- Efallai y bydd eich ymrwymiad i Fasnach Deg yn cynyddu teyrngarwch eich cwsmeriaid a fydd yn gostwng eich costau marchnata ac yn cynyddu'ch incwm. Gall hyn weithio yng nghyswllt y cenedlaethau iau yn arbennig.
- Efallai y bydd recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn haws os byddwch yn dangos eich bod yn gyflogwr moesegol a gofalgar, ac efallai y bydd cadw staff/gwirfoddolwyr yn gwella.
- Mae Masnach Deg yn rhoi cyfle i gael cysylltiadau cyhoeddus cadarnhaol - dywedwch wrth y wasg yn lleol eich bod yn symud i fod yn fusnes Masnach Deg. Dywedwch hefyd wrth eich noddwyr a rhanddeiliaid eraill. Os byddwch yn stocio nifer sylfaenol o gynnyrch, gallech gael eich cynnwys yn arweinlyfr eich tref Masnach Deg leol. Gallwch chi fod yn rhan o genedl Masnach Deg Cymru.

Ysgrifennwyd gan: Elizabeth Hudson (Swyddog Marchnata Masnach Deg) a
Catherine Evans (Swyddog Marchnata)
Diweddarwyd: Gorffennaf 2008, Chwefror 2008, Ebrill 2007